Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 344A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Robert Hathaway ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan gyfarwyddyd John Roberts a Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gwell arweinyddiaeth o ran gwasanaethau cynllunio yn cyfrannu at foddhad cwsmeriaid da, ansawdd cynlluniau a darpariaeth tai fforddiadwy, ond nid yw'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu â pharciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru ac yn sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 5 |
| Adroddiad manwl | |
| **Gweledigaeth ac arweinyddiaeth**: Ategir gweledigaeth glir, gyffredin yr Awdurdod gan well arweinyddiaeth, er nad yw'r Awdurdod wedi nodi ei flaenoriaethau lleol ar gyfer ei wasanaeth cynllunio yn glir | 7 |
| Mae gan yr Awdurdod weledigaeth glir, a ddatblygwyd drwy waith ymgynghori cymunedol helaeth | 7 |
| Mae'r Awdurdod wedi gwella ei gapasiti a'i ddull o gydweithio ar lefel uwch reolwyr ac aelodau | 8 |
| Er bod aelodau, swyddogion a chwsmeriaid yn cefnogi'r dyhead o ran datblygu cynaliadwy, nid yw'r Awdurdod wedi nodi blaenoriaethau lleol i ategu targedau cenedlaethol yn glir | 8 |
| **Cyflawni a chost:** Mae boddhad cwsmeriaid yn dda, mae costau rheoli datblygu yn isel ar y cyfan ac mae rhai meysydd cyflawni yn perfformio'n dda ond, er bod gwell cydweithio, nid yw'n ddigon strategol | 10 |
| Mae boddhad cwsmeriaid yn dda ac mae asiantau cynllunio, penseiri a chynghorau tref a chymuned yn dweud bod ganddynt fwy o hyder yn y gwasanaeth cynllunio | 10 |
| Mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda mewn perthynas â pharatoi cynlluniau defnydd tir, a darparu tai fforddiadwy, er nad yw ansawdd na chyflymder y broses gwneud penderfyniadau cystal â llawer o awdurdodau | 11 |
| Mae'r Awdurdod wedi dechrau ymateb yn fwy i ofynion masnachol ac, er iddo wneud arbedion drwy leihau nifer y staff yn y gwasanaeth cynllunio, ni chafodd hyn ei arwain gan ddadansoddiad cymharol, manwl na strategaeth gweithlu | 13 |

| | |
|---|---|
| Mae'r Awdurdod yn adeiladu ar ei drefniadau cydweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio ond nid yw ei gynlluniau na'i dargedau yn ddigon strategol i gyflawni arbedion cost sylweddol yn wyneb caledi parhaus yn y sector cyhoeddus | 15 |
| Mae costau gwasanaeth rheoli datblygu'r Awdurdod yn cymharu'n dda ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, er bod costau polisi cynllunio yn uwch, ond anghytunir ynghylch cymharedd y wybodaeth | 17 |
| **Monitro ac adolygu:** Mae'r Awdurdod wedi gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â rheoli perfformiad er nad yw'n canolbwyntio ddigon ar adolygu blaenoriaethau, gwerth am arian na chanlyniadau ar gyfer ei wasanaeth cynllunio | 23 |
| Mae rheoli perfformiad wedi gwella ond mae cyfleoedd yn bodoli i adolygu blaenoriaethau a thargedau'r gwasanaeth cynllunio | 23 |
| Mae'r Awdurdod yn colli cyfleoedd i roi sicrwydd ynghylch gwerth am arian a chanlyniadau ei wasanaethau cynllunio a'u gwella | 25 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae gan awdurdodau parciau cenedlaethol ddyletswydd i ddiogelu'r dirwedd y maent yn gyfrifol amdani tra'n sicrhau, ar yr un pryd, y gall pobl fwynhau'r dirwedd honno. Mae swyddogaeth gynllunio statudol awdurdodau parciau cenedlaethol yn rhan bwysig o'r ddyletswydd honno[1]. Mae gwasanaethau cynllunio yn cynrychioli cyfran helaeth o'r amser y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei dreulio a'r adnoddau y bydd yn eu defnyddio wrth gyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid i'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn sylweddol yn ddiweddar. Daeth hyn yn weithredol yn ystod 2014-15, gyda thoriadau pellach yn ofynnol yn 2015-16 a thu hwnt o bosibl. Mae pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru bellach yn gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut i ddelio â llai o gyllid. O gofio'r gwariant cymharol uchel ar ddarparu gwasanaethau cynllunio mewn awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru o gymharu â chynghorau, mae'r gostyngiadau yn y cyllid cyffredinol yn peri risgiau penodol. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio ac yn nodi sut y mae'r awdurdodau parciau cenedlaethol yn rheoli'r risgiau hyn. Ym mis Mai 2009 paratowyd adroddiad arolygu gennym[2] ar berfformiad gwasanaeth cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod). Canfu'r adroddiad, er bod rhai meysydd yn perfformio'n dda, fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau digon o gapasiti, lleihau'r gwaith oedd wedi cronni a gwella boddhad cwsmeriaid.

**3.** Rydym wedi gwneud gwaith yn y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru er mwyn asesu i ba raddau yr oeddent yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon gyda llai o arian. Roedd ein gwaith maes yn yr Awdurdod yn cynnwys adolygiadau o ddogfennau a data, yn ogystal â chyfres o gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda swyddogion dethol, aelodau, cynghorwyr cymuned ac asiantau cynllunio. Mae ein dadansoddiad a'n gwaith maes a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru wedi ein galluogi i wneud cymariaethau o ran perfformiad a chostau.

**4.** Yn yr adroddiad hwn, rydym yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Awdurdod yn darparu Gwasanaethau Cynllunio effeithlon gyda'r nod o sicrhau lefel uchel o berfformiad, hyd yn oed yn wyneb cyfyngiadau cyllidebol cynyddol?

**5.** Daethom i'r casgliad fod gwell arweinyddiaeth o ran gwasanaethau cynllunio yn cyfrannu at foddhad cwsmeriaid da, ansawdd cynlluniau a darpariaeth tai fforddiadwy, ond nid yw'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru ac yn sicrhau gwerth am arian yn ddigon cadarn. Daethom i'r casgliad hwnnw am y rhesymau canlynol:

- ategir gweledigaeth glir, gyffredin yr Awdurdod gan well arweinyddiaeth, er nad yw'r Awdurdod wedi nodi ei flaenoriaethau lleol ar gyfer ei wasanaeth cynllunio yn glir;

---

[1] Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar geisiadau cynllunio a threftadaeth, datblygu cynlluniau defnydd tir a threftadaeth lleol ac ymchwilio i achosion o dorri rheolaethau cynllunio a'u gorfodi.

[2] Swyddfa Archwilio Cymru: **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Gwasanaethau Cynllunio**, Mai 2009

- mae boddhad cwsmeriaid yn dda, mae costau rheoli datblygu yn isel ar y cyfan ac mae rhai meysydd cyflawni yn perfformio'n dda ond, er bod gwell cydweithio, nid yw'n ddigon strategol; ac
- mae'r Awdurdod wedi gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â rheoli perfformiad er nad yw'n canolbwyntio ddigon ar adolygu blaenoriaethau, gwerth am arian na chanlyniadau ar gyfer ei wasanaeth cynllunio.

**6.** Er mwyn helpu'r Awdurdod i fynd i'r afael â'r meysydd gwella a nodwyd yn yr adroddiad hwn gwnawn y cynigion canlynol ar gyfer gwella. Dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

| | |
|---|---|
| C1 | Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru i ddatblygu:<br>• data cyson, a chymharol gadarn ar gostau a nifer a defnyddio hyn i weld a yw'n darparu gwerth am arian ai peidio; a<br>• chanlyniadau perthnasol er mwyn helpu i fesur y cyfraniad tuag at gyflawni nod datblygu cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â newid tymor hwy.<br>Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud mewn cydweithrediad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y profiad o fesur a chymharu costau drwy Benaethiaid Cynllunio'r Alban a Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Lloegr. |
| C2 | Cynyddu lefelau cydweithio strategol a gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gydag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru, gan gynnwys ymchwilio i gyfleoedd i leihau costau'r gwasanaeth cynllunio a'r opsiynau ar gyfer cynllunio'r gweithlu mewn ffordd agosach. |
| C3 | Adolygu blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwasanaethau cynllunio'r Awdurdod er mwyn sicrhau y rhoddir digon o ffocws ar ddiwallu anghenion cymunedau lleol. |

# Adroddiad manwl

## Ategir gweledigaeth glir, gyffredin yr Awdurdod gan well arweinyddiaeth, er nad yw'r Awdurdod wedi nodi ei flaenoriaethau lleol ar gyfer ei wasanaeth cynllunio yn glir

### Mae gan yr Awdurdod weledigaeth glir, a ddatblygwyd drwy waith ymgynghori cymunedol helaeth

**7.** Mae gwasanaethau cynllunio'r Awdurdod, sy'n gweithio ochr yn ochr â'i swyddogaethau rheoli tir, yn elfen hanfodol o reoli'r defnydd o dir i sicrhau dyfodol hirdymor priodol i gymunedau, ymwelwyr ac i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae'r gwasanaeth cynllunio yn cefnogi dau ddiben statudol yr Awdurdod, sef diogelu a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cyfleoedd cyhoeddus i ddeall a mwynhau'r Parc. Mae gan yr Awdurdod hefyd ddyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn ei ardal. Mae gan yr Awdurdod, ynghyd ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, rôl allweddol i brofi dulliau gweithredu newydd o ymdrin â phrif nod Llywodraeth Cymru o sicrhau datblygu cynaliadwy[3].

**8.** Mae Eryri (Yr Wyddfa) yn dirwedd o bwysigrwydd rhyngwladol, sy'n gyfoethog o ran ei threftadaeth ddiwylliannol a'i bywyd gwyllt. Mae heriau cymunedol allweddol yn cynnwys yr economi cyflogau isel, cost uchel tai a dyfodol y Gymraeg. Nodir gweledigaeth yr Awdurdod yn glir yn ei Gynllun Rheoli hirdymor a'i Gynllun Datblygu Lleol. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r math o gyd-destun amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y mae'r Awdurdod yn ceisio ei gyflawni. Mae wedi dewis datblygu'r cynlluniau corfforaethol allweddol hyn ar y cyd â'i gilydd. Wrth wneud hynny, mae'r ddau gynllun hyn yn atgyfnerthu ei gilydd, gyda mwy o bolisïau a chamau gweithredu integredig. Mae hyn hefyd yn dangos y rôl ganolog y mae gwasanaethau cynllunio yn ei chwarae drwy helpu aelodau'r Awdurdod i reoli'r datblygiad o ddefnydd tir.

**9.** Ymgynghorwyd yn helaeth er mwyn paratoi a chymeradwyo'r Cynllun Rheoli a'r Cynllun Datblygu Lleol. Paratowyd y Cynllun Rheoli ar ôl cyfnod o ymgynghori â phartneriaid allweddol a'r gymuned ehangach. Dylanwadodd yr ymgynghoriad hwn ar ddewis yr Awdurdod o chwe grŵp i gyfarwyddo a rheoli'r newid yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys rheoli carbon, gwella tirweddau a chefnogi cymunedau cynaliadwy.

**10.** Caiff yr uchelgeisiau a nodir yn y cynlluniau lefel uchel hyn eu hategu gan y Cynllun Gwella Busnes blynyddol a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol fanylach sy'n esbonio sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni ei amcanion. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn ffurfio 'edau aur' glir sy'n cynnig y potensial i drosi uchelgeisiau a chapasiti yn gamau gweithredu yn y Parc Cenedlaethol.

[3] Datblygu cynaliadwy yw datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau i ddod i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## Mae’r Awdurdod wedi gwella ei gapasiti a’i ddull o gydweithio ar lefel uwch reolwyr ac aelodau

**11.** Mae aelodau yn arddangos ymdeimlad cryf o ymgysylltu â gwaith yr Awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â’r nodau o gynnal hunaniaeth ddiwylliannol a bywyd cymunedol cadarn. Dywed yr Aelodau fod y gwaith ar y cyd a wnânt yn yr Awdurdod yn gydlynus ac maent yn cymharu hyn â’r gwaith llai cydsyniol a wneir yn eu hawdurdodau cyfansoddol. Ym marn yr Aelodau mae digon o gyfle i graffu yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

**12.** Ers 2012 mae arbenigedd a phrofiad chwe phenodai Lywodraeth Cymru wedi cynnig gallu ychwanegol at aelodaeth yr Awdurdod, ac mae aelodau a swyddogion yn nodi bod arweinyddiaeth yr aelodau a’r swyddogion ar y cyd wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi cefnogi gwelliant parhaus mewn sawl maes yn dilyn ein hadroddiad arolygu yn 2009 o wasanaethau cynllunio’r Awdurdod gan gynnwys mwy o gapasiti, llai o waith yn cronni a boddhad cwsmeriaid gwell.

**13.** Mae’r Awdurdod yn defnyddio gweithdai aelodau a swyddogion a gynhelir bob deufis i ystyried materion mewn ffordd gynhwysfawr agored. Mae hyn yn golygu y gellir trafod rhai meysydd yn gynnar megis strategaethau ariannol a chyllidebol, rhaglen waith gorfforaethol a chynllun gwella busnes er mwyn pennu cyfeiriad i’r aelodau ar gam cynnar. Mae uwch reolwyr yn nodi gwell ymdeimlad o berchenogaeth ymhlith yr aelodau a chapasiti cynyddol i arwain a rheoli trafodaethau gweithdai. Mae’r tîm rheoli corfforaethol cymharol newydd yn arddangos dull cyffredin a dosbarthol o arwain. Mae rheolwyr yr Awdurdod hefyd yn nodi’n glir yr hyn a ddisgwyliant gan staff drwy gynlluniau tîm ac arfarniadau unigol. Mae hyn yn darparu llwyfan pwysig i sicrhau gwelliant parhaus.

## Er bod aelodau, swyddogion a chwsmeriaid yn cefnogi’r dyhead o ran datblygu cynaliadwy, nid yw’r Awdurdod wedi nodi blaenoriaethau lleol i ategu targedau cenedlaethol yn glir

**14.** Ym marn aelodau’r Awdurdod prif nod y gwasanaeth cynllunio yw sicrhau datblygu cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol. Yn eu barn hwy mae hyn yn ymdrin â meysydd fel diogelu’r dreftadaeth naturiol ac adeiledig ond mae hefyd yn hyrwyddo amrywiaeth a thwf economaidd, yn annog gwaith dylunio o ansawdd uchel ac yn arbed ynni ac yn cefnogi’r gwaith o gynnal y Gymraeg a diwylliant yr ardal. Pan wnaethom gyfweld â swyddogion ac asiantau cynllunio, roeddent yn rhannu dyheadau tebyg ar gyfer yr ardal ac nid ffocws cul ar elfennau megis cyflymder neu broses yn unig oedd ganddynt.

**15.** O gofio’r cyflogau isel sydd yn yr ardal a phwysigrwydd mentrau bach a chanolig, mae’r Awdurdod yn canolbwyntio ar gefnogi’r sector hwn. Fel rhan o rôl yr Awdurdod o sicrhau datblygu cynaliadwy, mae’r Awdurdod ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn adolygu ar y cyd lwyddiant eu polisïau a’u camau gweithredu wrth gefnogi’r broses o greu swyddi mewn microfusnesau. Nod yr adolygiad ar y cyd yw casglu tystiolaeth i weld a all polisïau presennol gynnal cymunedau cynaliadwy a microfusnesau yn y Parc Cenedlaethol.

**16.** Nid oes cynllun gwasanaeth cyffredinol yn bodoli i lywio gwaith y gwasanaeth cynllunio er bod yr Awdurdod wedi adolygu elfennau o'r prosesau gwneud cais cynllunio a gwaith y tîm gorfodi. Nodir blaenoriaethau a thargedau'r gwasanaeth yn y Cynllun Busnes a Gwella, y Rhaglen Waith Gorfforaethol a thrwy'r Dangosyddion Perfformiad Statudol. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol yn casglu data ar berfformiad y cynllun o ran agweddau ar y broses rheoli datblygu. Cyflwynir adroddiad yn flynyddol i aelodau'r Awdurdod ac i Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnig trosolwg strategol o berfformiad penderfyniadau rheoli datblygu o ran bodloni dyheadau a chyflawni amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.

**17.** Fodd bynnag, er bod y gwasanaeth yn cyfrannu at amcanion y gymuned ehangach, nid yw trefniadau rheoli perfformiad yr Awdurdod yn darparu'n llawn ar gyfer y gwaith o gyflwyno adroddiadau a chraffu ar flaenoriaethau aelodau lleol. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fesurau craidd na lleol sy'n ei helpu i sicrhau ei hun a'r cyhoedd ei fod yn cyflawni o ran materion allblyg ehangach sy'n cysylltu ag uchelgeisiau'r Awdurdod ei hun. Er enghraifft, mae dangosyddion cynllunio lleol ond yn canolbwyntio ar ddau brif fater allblyg - ansawdd cyflwyniadau cynllunio a lefel gynyddol o ddealltwriaeth o bolisïau cynllunio. Yn sgil cyfweliadau ag aelodau, staff a rhai cwsmeriaid cynllunio daeth yn glir bod gofynion Llywodraeth Cymru o ran cyflymder y broses o wneud penderfyniadau yn flaenoriaeth glir ac yn brif flaenoriaeth o bosibl.

**18.** Nid yw'r Awdurdod yn defnyddio dull cerdyn sgorio cytbwys a fyddai'n golygu y gellid gosod cyflymder ochr yn ochr ag elfennau eraill o bwys lleol megis creu swyddi a chynyddu arwynebedd llawr masnachol/diwydiannol. Heb flaenoriaethau lleol priodol, bydd ffocws yr Awdurdod yn anochel ar dargedau a orfodir yn genedlaethol. Mae hyn yn gwanhau ei ffocws ar sicrhau y defnyddir y swyddogion i'r eithaf o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion allweddol a bennwyd gan yr aelodau. Byddai mwy o ffocws ar gasglu a chraffu ar wybodaeth am berfformiad yn erbyn anghenion lleol hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r canfyddiad, a nodwyd yn yr adroddiad **Darparu Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau Dynodedig Statudol yng Nghymru**[4] fod prosesau cynllunio yn atal datblygiad (busnes) masnachol.

[4] Ymchwil Llywodraeth Cymru i werthuso'r ffordd y darperir gwasanaethau cynllunio mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau).

Llywodraeth Cymru, **Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau sydd wedi'u Pennu'n Statudol yng Nghymru**

# Mae boddhad cwsmeriaid yn dda, mae costau rheoli datblygu yn isel ar y cyfan ac mae rhai meysydd cyflawni yn perfformio'n dda ond, er bod gwell cydweithio, nid yw'n ddigon strategol

## Mae boddhad cwsmeriaid yn dda ac mae asiantau cynllunio, penseiri a chynghorau tref a chymuned yn dweud bod ganddynt fwy o hyder yn y gwasanaeth cynllunio

**19.** Yn 2012 a 2013, derbyniodd yr Awdurdod dystysgrif Safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r wobr hon yn adlewyrchu safon eithriadol o ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid, gyda chlod arbennig am wrando a deall anghenion defnyddwyr cyn buddsoddi mewn gwaith i wella ei ddarpariaeth o ran gwasanaethau.

**20.** Yn 2014-15, mynegodd 87 y cant o ymgeiswyr cynllunio a ymatebodd i arolwg gan yr Awdurdod eu bod yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'u cais ar y cyfan. Roedd y lefel boddhad hon yn uwch nag yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sef 75 y cant, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a gofnododd 42 y cant. Dywedodd bron un o bob dau ymgeisydd wrth yr Awdurdod eu bod yn 'fodlon iawn' ar y ffordd yr ymdriniodd yr Awdurdod â'u cais.

**21.** Mae'r gwasanaeth cynllunio yn cyfarfod â'i asiantau cynllunio o leiaf bob blwyddyn ac yn defnyddio sylwadau ac adborth i wella ei effeithlonrwydd. Er enghraifft, rhoddodd asiantau cynllunio gyngor defnyddiol ar y wefan cynllunio newydd, a arweiniodd at newidiadau a'i gwnaeth yn haws i'w defnyddio ac yn fwy greddfol. Mae asiantau cynllunio a phenseiri yn mynegi llawer o hyder yn y gwasanaeth cynllunio a dywedwyd wrthym fod polisïau'r Awdurdod a'r staff yn cefnogi gwaith dylunio sensitif a phriodol o ansawdd uchel. Mae'r ffactorau hyn yn cefnogi gweledigaeth gyffredinol yr Awdurdod ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Adlewyrchir ansawdd y gwaith datblygu a wneir yn nyluniad a lleoliad Ysgol Craig y Deryn, Llanegryn. Yn 2014, rhoddodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol y wobr uchaf i'r cynllun hwn. Dywedodd yr Aelodau wrthym hefyd eu bod wedi bod yn geidwadol yn eu hagwedd at ddylunio yn y gorffennol ond eu bod bellach yn cydnabod pa mor bwysig yw adeiladau ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae hyn yn awgrymu bod gan yr aelodau lawer o hyder yn argymhellion y swyddogion ar gyfer datrysiadau dylunio mwy newydd ac arloesol.

**22.** Mae ymgysylltu'n effeithiol â chynghorau cymuned yn helpu i sicrhau perchenogaeth leol a hyder yn y gwasanaeth. Ym marn y cynghorwyr cymuned roedd cynnal cyfarfodydd mewn dwy ardal yn ei gwneud yn haws iddynt eu mynychu. Mynegwyd boddhad hefyd gyda'r ffordd y mae'r Awdurdod yn ymdrin â'u sylwadau er bod gwahaniaeth barn yn aml rhwng yr Awdurdod a chynghorau tref a chymuned ynglŷn â sut y dylid penderfynu ar gais. Gwnaeth y cyfarfodydd eu helpu hefyd i ddeall yn well faterion technegol megis cyllid adran 106[5] a chyngor newydd Llywodraeth Cymru ar

[5] Cytundeb cyfreithiol i ddarparu seilwaith, gwasanaethau neu gyllid ar y safle datblygu neu oddi arno.

bolisïau. Yn 2013-14 dywedodd pob cyngor cymuned a ymatebodd i holiadur yr Awdurdod ei fod yn deall yn dda yr hyn a wna'r Awdurdod a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

**23.** Yn 2014-15 buddsoddodd yr Awdurdod er mwyn gwella gwefan ei wasanaeth cynllunio ac yn y flwyddyn ariannol honno, roedd 77 y cant o ddefnyddwyr a wnaeth sylwadau ar ansawdd y wefan yn fodlon, sef cynnydd o 12 y cant o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae gan y wefan gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio. Mae hyn yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i olrhain cynnydd ceisiadau cynllunio a gweld eu cynnwys. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl o hyd i gwsmeriaid wneud taliadau electronig ar-lein.

## Mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda mewn perthynas â pharatoi cynlluniau defnydd tir a darparu tai fforddiadwy, er nad yw ansawdd na chyflymder y broses gwneud penderfyniadau cystal â llawer o awdurdodau

**24.** Mae perfformiad yr Awdurdod o'i fesur yn erbyn Fframwaith Perfformiad 2013-14 Llywodraeth Cymru[6] yn gymysg. Mae paratoi cynlluniau defnydd tir yn un o gryfderau allweddol gwaith yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol. Yn 2014-15, ei gyflenwad tir o 8.3 o flynyddoedd oedd yr uchaf o blith y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r Awdurdod yn gyson wedi rhoi caniatâd i ganran gymharol uchel o'r holl anheddau a gymeradwywyd fel tai fforddiadwy. Yn 2014-15, cymeradwyodd yr Awdurdod 13 o unedau tai fforddiadwy, gan gynrychioli 59 y cant o'r holl unedau tai a gymeradwywyd. Rhwng 2012-13 a 2014-15 rhoddodd yr Awdurdod ganiatâd i ymhell dros hanner yr holl anheddau newydd fel unedau fforddiadwy. Dros yr un cyfnod hwn mae'r Awdurdod hefyd wedi gweld bod cyfran uchel o'r holl anheddau newydd a gwblhawyd yn unedau tai fforddiadwy. Yn 2014-15, adeiladwyd 27 o anheddau, o gymharu â 10 yn 2013-14 a 37 yn 2012-13. Mae'r llwyddiant hwn yn bwysig iawn o ran sicrhau y gall pobl leol fforddio byw yn y Parc Cenedlaethol ac mae'n gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at gynnal treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yr ardal.

**25.** Mae ansawdd y broses gwneud penderfyniadau yn cymharu'n anffafriol ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill. O ran aelodau'n gwrthdroi cyngor swyddogion ynglŷn â cheisiadau cynllunio, gwnaeth yr aelodau wrthdroi bron hanner (10) o'r 21 o argymhellion gan swyddogion i gyd. Y gyfradd wrthdroi hon o bron 48 y cant gan yr Awdurdod oedd y gyfradd uchaf ymhlith yr holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru. Y ffigurau cymharol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedd 12 y cant (2 allan o 17) a ffigur Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oedd chwech y cant (un allan o 17).

**26.** O ran canran yr apeliadau a amddiffynnwyd yn llwyddiannus gan yr Awdurdod, dirywiodd ei berfformiad cymharol i 'teg' yn unig o'i gymharu ag awdurdodau cynllunio lleol eraill yng Nghymru. Gyda chyfradd lwyddo o 63 y cant o ran apeliadau gostyngodd ei berfformiad islaw perfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau

[6] **Llywodraeth Cymru: Tabl y Fframwaith Perfformio**. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru Tabl y Fframwaith Perfformiad bob chwarter.

Brycheiniog, sef 80 y cant a pherfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sef 77 y cant. Yn 2014-15 ni chanfuwyd unrhyw achosion o gamweinyddu gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ac ni wnaeth yr Arolygiaeth Gynllunio ddyfarnu unrhyw gostau apelio yn erbyn yr Awdurdod.

**27.** Yn 2014-15 asesodd Llywodraeth Cymru 'effeithlonrwydd' yr Awdurdod gan nodi mai teg yn unig ydoedd. Mae'r mesur hwn yn asesu perfformiad o ran cyflymder y broses o wneud penderfyniadau. Yn seiliedig ar yr amser a gymerwyd i benderfynu ar bob cais o fewn wyth wythnos, mae'r Awdurdod yn parhau i berfformio'n waeth na'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru. Rhwng 2011-12 a 2013-14 ni welwyd unrhyw welliant sylweddol ym mherfformiad yr Awdurdod o ran y mesur hwn, ond yn 2014-15 gwellodd ei berfformiad i 75 y cant. Yn 2014-15, penderfynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 88 y cant o'r holl geisiadau o fewn wyth wythnos, a phenderfynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 86 y cant. Yn 2014-15, cynyddodd canran y ceisiadau a gymeradwywyd o 89 y cant i 90 y cant, a oedd yn cyfateb i gyfradd gymeradwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ond yn is na chyfradd gymeradwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sef 95 y cant.

**28.** Rhwng y blynyddoedd ariannol 2011-12 a 2013-14 methodd yr Awdurdod â chymeradwyo unrhyw un o'i naw cais mawr[7] o fewn 13 wythnos, ond llwyddodd yr Awdurdod i gymeradwyo un o'i ddau gais mawr yn unol â'r amserlen ofynnol yn 2014-15. Mewn cymhariaeth, yn 2014-15 cymeradwyodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 33 y cant (tri allan o naw) a chymeradwyodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 20 y cant (un allan o bump) o'u ceisiadau mawr. Mae cyfleoedd yn bodoli i wella effeithlonrwydd cyffredinol wrth gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau, yn enwedig o ran ceisiadau 'mawr' a cheisiadau 'eraill'[8].

**29.** Fodd bynnag, yn 2014-15 mae'r gyfradd ddirprwyo wedi gwella gyda'r Awdurdod yn dirprwyo 90 y cant o'i benderfyniadau i swyddogion, sef cynnydd o bedwar y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn cefnogi proses gwneud penderfyniadau fwy effeithlon. Yn yr un flwyddyn, cafwyd cyfradd ddirprwyo o 93 y cant o benderfyniadau cynllunio yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Yn 2013-14 canolbwyntiodd Cynllun Busnes a Gwella'r Awdurdod ar wella meysydd o wasanaeth gorfodi'r Awdurdod. Yn 2013-14 a 2014-15 cyflawnodd yr Awdurdod ei darged o ddatrys dros 60 y cant o achosion gorfodi o fewn 12 wythnos. Yn 2014-15 gwellodd yr Awdurdod ei berfformiad o 61 y cant yn y flwyddyn ariannol flaenorol i 63 y cant. Ni allwn wneud sylwadau ar agweddau eraill ar berfformiad gorfodi'r Awdurdod megis yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ymchwilio a chymryd camau gorfodi a nifer yr achosion sydd eto i'w penderfynu, gan nad yw'r data ar gael.

[7] Mae ceisiadau 'mawr' yn cynnwys ceisiadau am ddatblygiadau preswyl o 10 annedd neu fwy neu ddatblygiad o fwy na 0.5 hectar neu swyddfeydd, diwydiant cyffredinol neu ddatblygiad manwerthu dros 1,000 $m^2$ neu un hectar.

[8] Mae ceisiadau 'eraill' yn cynnwys ceisiadau am ddatblygiadau i ddeiliaid tai, rhai newidiadau o ran defnydd, hysbysebion ac adeiladau rhestredig.

30. Anogodd y gwasanaeth gwsmeriaid i drafod eu cynlluniau cyn cyflwyno cais er mwyn sicrhau cais o ansawdd uwch a chanlyniad cyflymach a mwy sicr. Yn 2014-15 llwyddodd yr Awdurdod i wrthdroi'r gostyngiad blaenorol yng nghanran y ceisiadau annilys a ddaeth i law. Yn 2014-15 gwelwyd gwelliant o 63.5 y cant i 79 y cant yng nghanran y ceisiadau dilys a ddaeth i law fel cyfanswm yr holl geisiadau a ddaeth i law. Fodd bynnag, mae hyn yn is na lefelau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sef 97 y cant ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sef 89 y cant. Mae gostwng canran y ceisiadau annilys yn lleihau aneffeithlonrwydd a gwastraff ac yn cefnogi gwasanaeth gwell i gwsmeriaid yn y gwasanaeth cynllunio.

## Mae'r Awdurdod wedi dechrau ymateb yn fwy i ofynion masnachol ac, er iddo wneud arbedion drwy leihau nifer y staff yn y gwasanaeth cynllunio, ni chafodd hyn ei arwain gan ddadansoddiad cymharol, manwl na strategaeth gweithlu

31. Mae'r Awdurdod wedi gweithredu'n gyflym i fynd i'r afael â thoriadau cyllidebol ac mae wedi datblygu strategaethau a chamau gweithredu cyllidebol clir. Roedd trafodaethau cynnar mewn gweithdai anffurfiol rhwng y tîm rheoli corfforaethol ac aelodau yn ganolog i gytuno ar strategaeth ariannol a chyllidebol. Blaenoriaethodd yr Awdurdod waith y gwasanaeth cynllunio oherwydd ei natur statudol, a gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio sydd wedi wynebu toriadau cyllidebol i raddau helaeth.

32. Mae'r strategaeth ariannol wedi ei hegluro'n glir ar lefel uchel. Mae'r Awdurdod yn ceisio cynyddu cydweithrediad a gwaith partneriaeth. Mae'n ceisio gwneud arbedion lle y bo'n bosibl drwy arbedion effeithlonrwydd a chynyddu incwm yn hytrach na thrwy leihau gwasanaethau'n uniongyrchol. Er enghraifft, mae'n ceisio gweithio'n agosach gyda'i awdurdodau cyfansoddol ac awdurdodau cynllunio lleol eraill yn y gogledd. Ym mis Mawrth 2014, er mwyn cefnogi ei Strategaeth Ariannol, cytunodd yr Awdurdod i newid amodau gwaith y staff er mwyn arbed arian ym mhob un o'i adrannau ac ni lenwodd rai o'r swyddi yn ei wasanaeth cynllunio. Arweiniodd hyn at nifer yr aelodau staff cyfwerth ag amser llawn yn y gwasanaeth cynllunio yn lleihau o 20.9 yn 2013-14 i 18.5 yn 2014-15 (gweler Arddangosyn 1). Fodd bynnag, ni chaiff lefelau staffio'r Awdurdod eu llywio gan strategaeth y gweithlu, dadansoddiad cymharol na dull meincnodi manwl ag awdurdodau tebyg eraill. Gallai diffyg dull strategol fethu â diogelu blaenoriaethau allweddol a thanseilio gallu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol yn y tymor hwy.

Arddangosyn 1: Tuedd yn nifer y staff gwasanaeth cynllunio (Cyfwerth ag amser llawn)

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| **APC Eryri** | | | |
| **Rheoli Datblygu** | 14 | 15 | 13 |
| **Polisi Cynllunio** | 5.9 | 5.9 | 5.5 |
| **Cyfanswm** | 19.9 | 20.9 | 18.5 |

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| **APC Arfordir Penfro** | | | |
| **Rheoli Datblygu** | 15.85 | 14.65 | 12.85 |
| **Polisi Cynllunio** | 3.75 | 3.35 | 2.85 |
| **Cyfanswm** | 19.6 | 18 | 15.70 |
| **APC Bannau Brycheiniog** | | | |
| **Rheoli Datblygu** | 19.9 | 18.7 | 17.5 |
| **Polisi Cynllunio** | 3.55 | 2.95 | 2.45 |
| **Cyfanswm** | 23.45 | 21.65 | 19.95 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**33.** Ers y cylch diwethaf o doriadau cyllidebol, mae'r Awdurdod yn parhau i geisio dod yn awdurdod sy'n ymateb yn fwy i ofynion masnachol. Mae'r tîm rheoli corfforaethol cymharol newydd wedi helpu i arwain y broses hon ac yn ceisio dysgu o arfer da mewn mannau eraill. Fodd bynnag, ni chyfeiriodd cyfweleion at gynhyrchu incwm na rheoli costau fel rhan hanfodol o'u rôl, sy'n awgrymu bod lle i wella o hyd o ran ffocws ar gost.

**34.** Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth cynllunio wedi cyflwyno, ar sail prawf, daliadau cyn gwneud cais ond ar gyfradd is nag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a llawer o awdurdodau cynllunio lleol eraill. Mae'n cydnabod, gyda lefelau cyflog isel a'r ffaith nad oes digon o dai yn cael eu hadeiladu, fod angen datblygu system brisio leol sensitif er mwyn sicrhau nad yw'n rhwystro datblygiadau lleol priodol. Yn 2014-15 casglodd yr Awdurdod £1,250 mewn ffioedd cyn gwneud cais. Yn ddiweddar hefyd mae wedi cyflwyno taliadau ar gyfer llunio Cytundebau Cyfreithiol adran 106. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi elwa ar daliadau cyn gwneud cais a llunio Cytundebau Cyfreithiol adran 106 am gyfnod hwy o lawer ac yn 2014-15 cafodd £27,580 mewn ffioedd cyn gwneud cais. Nid yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cyflwyno ffioedd ar gyfer cyngor cyn gwneud cais eto.

**35.** Mae'r gwasanaeth yn defnyddio adnoddau ac arbenigedd ei dîm yn dda. Er enghraifft, ailwampiodd y gwasanaeth ei wefan yn llwyr drwy ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) fewnol a thechnegydd TG. Roedd hyn yn cynnwys gwaith mewnol da rhwng aelodau o staff ym mhob un o'r disgyblaethau cynllunio, ynghyd â staff cymorth. Arweiniodd hyn at gostau is gan nad oedd angen cyflogi ymgynghorwyr allanol na wynebu taliadau a ailgodir gan ddarparwr TG mewnol.

## Mae'r Awdurdod yn adeiladu ar ei drefniadau cydweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio ond nid yw ei gynlluniau na'i dargedau yn ddigon strategol i gyflawni arbedion cost sylweddol yn wyneb caledi parhaus yn y sector cyhoeddus

**36.** Mae'r gwasanaeth cynllunio yn gwella ei effeithlonrwydd drwy ei drefniadau cydweithio ag awdurdodau cynllunio eraill yn y gogledd ac awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru. Mae'r Awdurdod yn ariannu galluogwyr tai gwledig ar y cyd â Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ddau awdurdod cyfansoddol hyn o ran astudiaethau hyfywedd tai. Mae'n rhan o gonsortiwm o awdurdodau cynllunio yn y gogledd sydd wedi sefydlu uned cynllunio mwynau ar y cyd yng Nghyngor Sir y Fflint i ddarparu gwaith cynllunio mwynau ar ei ran. Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau cynllunio lleol Gwynedd a Chonwy ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol[9] ac mae wedi comisiynu astudiaeth ar y cyd â Chyngor Gwynedd ar Sensitifrwydd Tirweddau.

**37.** Nod y gwasanaeth cynllunio yw dod yn fwy effeithlon ac mae'n ceisio ymestyn ei gyfleoedd partneriaeth drwy Grŵp Cynllunio Gogledd Cymru. Gallai hyn arwain at gostau is, cynyddu capasiti mewn maes arbenigol a chynyddu cydnerthedd yn gyffredinol. Mae consortiwm y Gogledd o gynghorau wedi penodi contractwr preifat i gefnogi'r capasiti ychwanegol ac wedi llunio cynllun gweithredu i gasglu rhagor o wybodaeth. Mae'r cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd gwell yn cynnwys penodi pensaer tirweddau drwy gronfeydd cyfun ar gyfer y consortiwm. Fodd bynnag, mae un o'r argymhellion allweddol mewn perthynas â deall costau yn well eisoes wedi colli dyddiad amserlen y prosiect sef Awst 2014.

**38.** Mae'r Awdurdod wedi dechrau gweithio'n agosach gydag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru ac wedi llunio rhestr o gamau gweithredu byrdymor, tymor canolig a hirdymor. Mae ffocws clir y cydweithio ar rannu arfer da a meithrin mwy o allu i gydweithio.

**39.** Ers mis Ebrill 2014 mae tri rheolwr cynllunio'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi llunio rhaglen ffurfiol ar fentrau cydweithio sy'n cynnwys rhaglen reolaidd o gyfarfodydd. Mae hyn yn creu'r potensial i sicrhau gwelliannau parhaus yn y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, nodwyd yr angen i gynnal cyfarfodydd swyddogion ar y cyd yn rheolaidd fel 'cam cyflym ymlaen' yn adroddiad[10] yr Ymgynghorwyr ar Ddefnydd Tir a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 ac felly collodd yr awdurdodau parciau cenedlaethol ychydig o amser cyn i'r cyfarfodydd hyn ar y cyd ddechrau oherwydd diffyg adnoddau. Mae enghreifftiau o allbynnau o'r cyfarfodydd yn cynnwys cytundeb lefel gwasanaeth ar y cyd rhwng y tri Awdurdod mewn perthynas â rhannu rheolwyr datblygu ar adegau

[9] Mae Atebolrwydd Seilwaith Cymunedol (CIL) yn ardoll y gall awdurdodau cynllunio ddewis ei chodi ar ddatblygiadau newydd yn eu hardal.

[10] **Delivery of Planning Services in Statutory Designated Landscapes in Wales**, a baratowyd gan LUC ar ran Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru (Awst 2012).

pan fo'u hangen yn ddirfawr, e.e. salwch neu gynnydd mewn llwyth gwaith. Mae'r cytundeb hwn yn golygu y gellir trosglwyddo gwaith un awdurdod i un o'r lleill. Gallai hyn olygu y byddai mwy o gydnerthedd pe bai diffyg capasiti wrth weithredu'r gwasanaeth rheolwyr datblygu.

**40.** Mae'r tri awdurdod yn trafod dull tebyg ar gyfer cytundeb lefel gwasanaeth o ran cynllunio datblygiadau. Fodd bynnag, mae'n glir bod y dyhead tymor canolig i hirdymor o gydlynu a chyfuno'r adolygiadau o'r cynlluniau datblygu lleol yn annhebygol iawn o ddigwydd oherwydd anghenion ac amserlenni adolygu lleol gwahanol. Hyd yma, nid yw'r Awdurdodau wedi defnyddio'r cytundeb lefel gwasanaeth. Mae'r tri Awdurdod wedi cydweithio i lunio canllawiau ar Ddatblygu Cynaliadwy fel Canllawiau Cynllunio Atodol ac maent yn sicrhau mai dim ond un Awdurdod sy'n arwain y gwaith o ymateb i Lywodraeth Cymru a'r ymgynghoriadau statudol mawr eraill. Mae enghreifftiau o drosglwyddo dysgu rhwng yr awdurdodau parciau cenedlaethol yn cynnwys lleihad yn nifer y cyfarfodydd pwyllgor (a ddefnyddiwyd gyntaf yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a'r ffocws cynyddol ar annog pobl i gyflwyno ceisiadau electronig drwy'r porth cynllunio cenedlaethol.

**41.** Er bod uchelgais amlwg am gydweithio mwy effeithiol rhwng awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru, nid yw hyn wedi'i ategu gan dargedau clir nac arbedion effeithlonrwydd disgwyliedig. Nid yw'r awdurdodau parciau cenedlaethol wedi manteisio'n gyflym nac yn effeithiol ar y cyfleoedd i gydweithio'n well yn adroddiad yr Ymgynghorwyr ar Ddefnydd Tir i greu cynllun gweithredu â blaenoriaethau clir ac wedi ei dargedu a'i gostio. Hyd yma mae'r enghreifftiau o gydweithio yn rhai gwerth isel yng ngoleuni'r gwariant cyllidebol cyffredinol ac nid ydynt yn adlewyrchu ymrwymiad tymor hwy cyffredin i gydweithio'n agosach, er enghraifft, drwy strategaethau cyfunol y gweithlu neu gynlluniau tymor canolig cyffredin.

**42.** Fodd bynnag, er mai casgliad adroddiad yr Ymgynghorwyr ar Ddefnydd Tir oedd bod yr adrannau cynllunio yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd i raddau helaeth, mae ein canfyddiadau mwyaf diweddar yn awgrymu bod diwylliant gwell o gydweithio ar waith. Mae'r dirwedd ariannol wahanol iawn ers adroddiadau'r Ymgynghorwyr ar Ddefnydd Tir a PricewaterhouseCoopers yn 2011,[11] wedi dwysáu'r angen am ystyried cydweithredu strategol rhwng cyrff y sector cyhoeddus fel modd i wella effeithlonrwydd.

**43.** Mae ein barn ar yr angen am well cydweithredu strategol rhwng yr awdurdodau parciau cenedlaethol er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian yn cyfateb i'r argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2014. [12] Er enghraifft argymhellodd y Comisiwn '…*that NPAs must develop clear and consistent ways of collaborating with each other, and with local authorities, with Visit Wales and with Natural Resources Wales, on the ground, to avoid duplication and maximise the use of resources and scarce expertise'.* Gydag arweinyddiaeth gryfach ymhlith aelodau a swyddogion yn y tri awdurdod parc

[11] PricewaterhouseCoopers, **Review of the Welsh National Park Authorities' Planning Services**, Ionawr 2011, ar ran y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru.

[12] Gweler para 2.60 o **Llywodraeth Cymru Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus 2014**

cenedlaethol yng Nghymru, mae cyfleoedd i wynebu mesurau cyni cyllidol cyhoeddus ar sail ariannol fwy strategol a chytûn. Ymhlith yr enghreifftiau o gydweithredu strategol a arweiniodd at arbedion sylweddol mae rhai cyd-wasanaethau mewn llywodraeth leol, rhwng llywodraeth leol ac iechyd, a rhwng yr Awdurdodau Tân.[13]

**44.** O ystyried buddiannau posibl cydweithio, cydweithredu a chydgynhyrchu gwasanaethau cynllunio, mae'n bwysig bod yr Awdurdod hefyd yn cydnabod y gall fod opsiynau i weithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos.

## Mae costau gwasanaeth rheoli datblygu'r Awdurdod yn cymharu'n dda â chostau awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, er bod costau polisi cynllunio yn uwch, anghytunir ynghylch cymharedd y wybodaeth

**45.** Datgelodd ein hastudiaeth ddiffyg cynnydd o hyd ymhlith awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru o ran cytuno ar sut y dylid asesu a chymharu costau gwasanaethau cynllunio. Yn 2009, yn dilyn arolygiad o wasanaeth cynllunio'r Awdurdod (gweler paragraff 5), gwnaethom argymell y dylai'r Awdurdod weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill i sicrhau y gellir cymharu data costau a defnyddio'r wybodaeth hon i ddangos ei fod yn cynnig gwerth am arian.

**46.** Yn yr un modd, argymhellodd adroddiad gan PricewaterhouseCoopers yn 2011 a gomisiynwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru y dylent 'undertake further analysis on costs and resources to understand and agree a consistent basis for comparison'. Er gwaethaf yr argymhellion hyn, nid yw'r awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru wedi gwneud unrhyw gynnydd o ran cytuno ar ddata cymharol. Trafodir hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ond mae'n egluro'r defnydd o setiau data gwahanol yn ein dyfarniadau isod.


**47.** Yn 2013-14, o'u mesur yn ôl enillion alldro refeniw[14] (gweler Arddangosyn 2), costau rheoli datblygu'r Awdurdod oedd £478,000. Mae hyn yn cymharu â £564,000 ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a £947,000 ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

---

[13] LGA a Drummond Macfarlane 2012. **Services shared: costs spared? An analysis of the financial and non-financial benefits of local authority shared services**

[14] Mae Alldro Refeniw yn cynrychioli costau cynnal gwasanaethau fel staffio, adeiladau, ynghyd â'r gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth.

Arddangosyn 2: Costau wedi'u Mesur gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru - Ffigurau Alldro Refeniw




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata a gyflenwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**48.** Oherwydd pryderon ynghylch ansawdd data a chymharedd, nid oes gan yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yr hyder i ddefnyddio'r ffigurau alldro refeniw fel sail ar gyfer dadansoddi costau. Cydnabyddwn rai o'r pryderon hyn ac felly gofynnwyd i'r Awdurdod ac awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru baratoi costau cymharol amgen ar gyfer eu gwasanaethau rheoli datblygu, rhai costau polisi cynllunio a pharatoi cynlluniau lleol. Rhoddwyd cymariaethau ar gyfer 2011-12 i 2014-15 (gweler Arddangosion 3 i 5) a chasglwyd costau cymharol hefyd ar gyfer y tri awdurdod parc cenedlaethol yn Lloegr ar gyfer 2013-14. Mae costau'r Awdurdod yn cymharu'n dda ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru. Am y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r Awdurdod wedi bod yn ddarparwr cost isel o wasanaethau rheoli datblygu yn gyson. Yn 2013-14, o gymharu â thri awdurdod parc cenedlaethol yn Lloegr, dim ond costau Awdurdod Parc Cenedlaethol y Peak District oedd yn is na rhai'r Awdurdod.

**49.** Yn 2014-15, o'u mesur yn ôl costau nad ydynt yn cynnwys taliadau a ailgodir[15], gan yr Awdurdod roedd y cyfanswm costau isaf ymhlith awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, sef £277,034 o gymharu â £304,000 ar gyfer Awdurdod Parc

[15] Taliadau a ailgodir yw costau a godir gan feysydd eraill o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol neu sefydliadau allanol am waith neu wasanaethau a gyflawnir ar ran gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod.

Cenedlaethol Arfordir Penfro a £399,686 ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn 2014-15, o'u mesur yn ôl cyfanswm costau a oedd yn cynnwys taliadau a ailgodir, roedd costau'r Awdurdod yn £490,684, sef yr isaf ymhlith yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. O'u mesur yn ôl costau cyfartalog fesul cais, yr Awdurdod a ddarparodd y gwasanaeth rhataf rhwng 2011-12 a 2013-14. Yn 2014-15, yn seiliedig ar gostau cyfartalog fesul cais (heb gynnwys taliadau a ailgodir), costau'r Awdurdod oedd £527, costau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oedd £488 a chostau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedd £705.

Arddangosyn 3: Costau Rheoli Datblygu 2012-13

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio** | 508 | 400 | 556 |
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £380,483 | £667,033 | £817,619 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £749 | £1,668 | £1,471 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £194,503 | £458,928 | £402,831 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £383 | £1,057 | £723 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

Arddangosyn 4: Costau Rheoli Datblygu 2013-14

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog | APC Dartmoor | APC Dyffrynnoedd Swydd Efrog | APC y Peak District |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio** | 577 | 469 | 505 | 671 | 574 | 641 |
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £465,935 | £575,261 | £868,429 | £548,667 | £519,000 | £432,000 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £808 | £1,227 | £1,719 | £818 | £904 | £674 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £275,725 | £337,352 | £485,533 | £368,406 | £365,000 | £183,000 |

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog | APC Dartmoor | APC Dyffrynnoedd Swydd Efrog | APC y Peak District |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £478 | £719 | £961 | £549 | £636 | £285 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru ar y cyd â thri awdurdod parc cenedlaethol yn Lloegr.*

Arddangosyn 5: Costau Rheoli Datblygu 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt** | 526 | 623 | 567 |
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £490,684 | £507,000 | £695,027 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £933 | £813 | £1,226 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £277,034 | £304,000 | £399,686 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £527 | £488 | £705 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**50.** Yn 2015-16 mae'r Awdurdod yn cyllidebu (gweler Arddangosyn 6) ar gyfer cynnydd bach yn ei gostau Rheoli Datblygu. Mae'r Awdurdod yn rhagweld y bydd yn gwario 2.17 y cant yn fwy yn 2015-16 (gan gynnwys taliadau a ailgodir) nag a wnaeth yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 7.05 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a chynnydd o 11.8 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.


Arddangosyn 6: Cyllideb ar gyfer Costau Rheoli Datblygu 2015-16

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £501,590 | £574,888 | £747,735 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £283,450 | £353,322 | £449,640 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**51.** Nid yw costau cymharol o ran blaengynllunio a chymunedau (gwelir Arddangosyn 7) yn cymharu cystal â chostau rheoli datblygu o'u cymharu ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru. Yn 2013-14, o'u mesur yn ôl enillion alldro refeniw, roedd costau'r Awdurdod sef £841,000 yn uwch na chostau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sef £748,000 a chostau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sef £601,000.

Arddangosyn 7: Costau Blaengynllunio a Chymunedau a Fesurwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru - Ffigurau Alldro Refeniw




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata a gyflenwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**52.** Yn 2014-15 roedd costau Polisi Cynllunio'r Awdurdod (gweler Arddangosyn 8) hefyd yn uwch na chostau'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru. Costau'r Awdurdod (gan gynnwys costau a ailgodir) oedd £380,242 o gymharu â £134,066 ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a £330,000 ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Arddangosyn 8: Costau Polisi Cynllunio 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £380,242 | £330,000 | £134,066 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £263,042 | £251,000 | £116,321 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**53.** Yn 2015-16 mae'r Awdurdod yn cyllidebu (gweler Arddangosyn 9) ar gyfer cynnydd uwch o ran darparu ei wasanaeth Polisi Cynllunio o'i gymharu â'r gwasanaeth Rheoli Datblygu. Mae costau wedi'u cyllidebu'r Awdurdod (gan gynnwys costau a ailgodir) o £410,790 yn cyfateb i gynnydd o 7.4 y cant o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Arddangosyn 9: Cyllideb ar gyfer Costau Polisi Cynlunio 2015-16

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £410,790 | £256,793 | £204,830 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £294,030 | £186,873 | £186,920 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**54.** I bob diben, cododd cost gyhoeddus gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod rhwng 2008-09 a 2013-14 gan na wnaeth incwm o ffioedd cynllunio dalu am y costau cynyddol. Gostyngodd incwm o £183,735 yn 2008-09 i £130,529 yn 2013-14. Yn 2014-15, amcangyfrifodd yr Awdurdod fod disgwyl i incwm fel canran o refeniw ostwng i 10 y cant. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod bod angen mwy o ffocws ar gynyddu incwm yn ei Strategaeth Ariannol, mae'r gwasanaeth cynllunio o'r farn nad oes fawr o le i gynhyrchu rhagor o incwm ac na fyddai'n fuddiol i'r gymuned leol. Yn 2014-15, roedd gan y gwasanaeth darged o godi £5,000 o ffioedd ar gyfer ymweliadau safle cyn gwneud cais a chytundebau adran 106. Cododd £1,250 am ymweliadau safle cyn gwneud cais.

**55.** Yn 2014-15, roedd costau cyfun yr Awdurdod ar gyfer rheoli datblygu a pholisi cynllunio yn unol ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru yn fras, gan gynnwys a heb gynnwys taliadau (gweler Arddangos 10).

Arddangosyn 10: Costau Rheoli Datblygu a Pholisi Cynlunio Cyfunol 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gyda thaliadau a ailgodir** | £870,926 | £837,000 | £829,093 |
| **Costau heb daliadau a ailgodir** | £540,076 | £555,000 | £516,007 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

**56.** Ym mis Gorffennaf 2011, yr Awdurdod oedd yr awdurdod cynllunio cyntaf (gweler Arddangosyn 11) yn y gogledd i fabwysiadu ei gynllun datblygu lleol ac ategir hwn gan ystod o ganllawiau cynllunio atodol mabwysiedig i gefnogi'r gwaith o roi datblygiadau priodol ar waith yn y Parc Cenedlaethol. Cyfanswm costau'r Awdurdod o ran llunio a mabwysiadu ei Gynllun oedd £770,000 o gymharu â £450,000 ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a £979,351 ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Arddangosyn 11: Cost paratoi a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r dyddiad mabwysiadu

| | Cost | Dyddiad mabwysiadu |
|---|---|---|
| **APC Eryri** | £770,000 | 2011 |
| **APC Arfordir Penfro** | £450,000 | 2010 |
| **APC Bannau Brycheiniog** | £979,351 | 2013 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.*

# Mae'r Awdurdod wedi gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â rheoli perfformiad er nad yw'n canolbwyntio ddigon ar adolygu blaenoriaethau, gwerth am arian na chanlyniadau ar gyfer ei wasanaeth cynllunio

## Mae rheoli perfformiad wedi gwella ond mae cyfleoedd yn bodoli i adolygu blaenoriaethau a thargedau'r gwasanaeth cynllunio

**57.** Mae'r Aelodau yn dangos eu bod yn dwyn swyddogion i gyfrif ac yn ailflaenoriaethu materion sy'n achos pryder i'r Awdurdod ac i'r cyhoedd. Mae enghreifftiau yn cynnwys gorfodi lle mae'r gwasanaeth wedi lleihau ôl-groniad hir ac wedi gwella perfformiad drwy sicrhau ffocws cryfach ymhlith aelodau a swyddogion. Mae hyn hefyd wedi

cynnwys cynyddu'r gallu ariannol a nifer y swyddogion. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi erlyn y rhai nad oeddent yn cydymffurfio â'r gofynion cynllunio. Mae hyn yn helpu i wella hygrededd y gwasanaeth cynllunio ymhlith y cyhoedd. Yn ystod 2014-15, parhaodd rheolwyr cynllunio i gyfarfod â llawer o'r cynghorau tref a chymuned i atgyfnerthu pwysigrwydd eu cyfraniad at y gwaith hwn.

**58.** Mae 'cyfarfodydd perfformiad' sydd newydd gael eu sefydlu rhwng y prif weithredwr, cyfarwyddwyr a phenaethiaid adrannau yn darparu trosolwg mwy strategol ar lefel gorfforaethol. Mae adroddiadau swyddogion yn helpu aelodau i graffu ar berfformiad ac yn helpu i sicrhau gwell effeithiolrwydd. Mae adroddiadau i'r Pwyllgor Polisi ac Adnoddau yn ymdrin â dangosyddion craidd a rhai dangosyddion lleol ynghyd â chynnydd yn erbyn y Rhaglen Waith Gorfforaethol. Dangosir tueddiadau ac mae rhywfaint o feincnodi ar gael i aelodau. Mae adroddiadau swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n atgyfnerthu'r dull o reoli perfformiad, yn hytrach na chanolbwyntio ar fesur perfformiad yn unig. Yn 2013-14, roedd pob aelod a ymatebodd i arolwg mewnol, o'r farn bod yr adroddiadau a gânt ar gynnydd o ran amcanion gwella yn amserol ac effeithiol.

**59.** Roedd ein **Hadroddiad Gwella Blynyddol** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014 yn cynnwys y cynnig canlynol ar gyfer gwella:

- Ar ôl gwneud cynnydd o ran llawer o'r amcanion gwella[16] a oedd yn dal ar waith rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2014, dylai'r Awdurdod fanteisio ar y cyfle i gynnal adolygiad sylfaenol o'r rhain yng nghyd-destun yr heriau ariannol sydd bellach yn wynebu'r Awdurdod.

**60.** Adolygodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2014-15 a phenderfynodd gynnwys yr amcan gwella canlynol:

- Mae'r Awdurdod yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau gan ddarparu gwasanaeth i bawb o fewn yr adnoddau llai sydd ar gael.

**61.** Fodd bynnag, arhosodd yr amcanion gwella eraill yr un peth, fel y gwnaethant mewn blynyddoedd cynharach. Ym marn yr Awdurdod roedd y newid cyfyngedig yn ei amcanion gwella yn briodol o gofio ei bod yn cael llai o gyllid. Fodd bynnag, nododd cynllun gwella'r Awdurdod: 'It is proposed that a more comprehensive exercise to arrive at our improvement objectives for 2015/16 can be undertaken, starting in the autumn.'

**62.** Mae'r Awdurdod wedi datblygu'r cynnig hwn ac, ar ôl ymgynghori helaeth, wedi mabwysiadu amcanion gwella diwygiedig ar gyfer 2015-16 sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- cyfathrebu;
- cynlluniau a pholisïau;
- iechyd a lles;
- rheoli partneriaethau a gwirfoddolwyr; a
- her ariannol a rheoli perfformiad.

[16] Mae'r Mesur Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod fabwysiadu amcanion gwella blynyddol.

**63.** Fodd bynnag, nid yw'r un o'r amcanion gwella hyn ar gyfer 2015-16 yn ymwneud yn benodol â materion sy'n greiddiol i waith gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cyfleoedd i ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella ar gyfer gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod sydd y tu hwnt i ofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

## Mae'r Awdurdod yn colli cyfleoedd i roi sicrwydd ynghylch gwerth am arian a chanlyniadau ei wasanaethau cynllunio a'u gwella

**64.** Yn gynharach yn yr adroddiad hwn rydym wedi cydnabod perfformiad cost cymharol dda yr Awdurdod mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, er y dirwedd ariannol a newidiodd yn sylweddol a ffocws cynyddol yr Awdurdod ar ddod o hyd i arbedion, datgelodd ein cyfweliadau ag aelodau a staff yr Awdurdod nad yw'r Awdurdod wedi gwella fawr ddim o ran ei ddealltwriaeth fanwl o werth am arian. Araf fu'r Awdurdod, ynghyd ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill, i ddatblygu dangosyddion a mesurau llwyddiant. Nid yw'r Awdurdod wedi gweithredu ar ganfyddiadau dau adroddiad o bwys a argymhellodd y dylai weithio gyda'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall i gytuno ar fframwaith cyson ar gyfer mesur a chymharu gwerth am arian.

**65.** Dywedodd ein hadroddiad arolygu yn 2009 ar wasanaeth cynllunio'r Awdurdod y dylai'r Awdurdod 'gymeradwyo canlyniadau cyflawnadwy a mesuradwy o ran Rheoli Datblygiadau sy'n ymwneud â ...gwerth am arian Unwaith y cytunir ar y canlyniadau hyn, dylid diweddaru cynlluniau gweithredu er mwyn nodi'n glir pa gamau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Yn yr un modd, argymhellodd adroddiad PricewaterhousCoopers yn 2011 y dylai'r tri awdurdod gytuno ar 'a consistent basis for defining the measures (to enable comparison) and in particular those around finance'.

**66.** Mae'r Awdurdod yn cydnabod y feirniadaeth hon yn rhannol ac yn ystyried y gall fod angen gwaith manylach ar rai costau gweithgarwch, ond noda fod ei bwyslais hyd yma wedi bod ar symleiddio prosesau a fydd yn lleihau costau ac yn gwella effeithlonrwydd.

**67.** Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid yw'r Awdurdod na'r awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru wedi datblygu mesurau cost safonol. Dadleua'r awdurdodau nad yw cymariaethau yn briodol oherwydd y gwahaniaethau yn y setiau data, yn enwedig y ffigurau blynyddol ar gyfer alldro refeniw.

**68.** Yn ôl pob tebyg, nid oes rhesymeg glir i nodi pam nad yw'r awdurdodau parciau cenedlaethol wedi ceisio cytuno ar safonau neu fesurau priodol i feincnodi mewn ffordd ansoddol a meintiol. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod profiad yn Lloegr a'r Alban yn dangos bod methodoleg sefydledig glir yn bodoli i fesur a chymharu prosesau ac amser/costau cysylltiedig. Yna mae'r Awdurdodau a'u grwpiau teuluol wedi cael cyfleoedd i archwilio perfformiad cymharol a dysgu a gwella os oes angen. Nodir rhai mesurau, safonau a chwestiynau defnyddiol i'w harchwilio gan wasanaethau cynllunio'r Awdurdod yn Arddangosyn 11[17].

---

[17] Daw'r enghreifftiau o gyfleoedd i gymharu o **Fframwaith Ansawdd Cynllunio'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio**.

Arddangosyn 11: Cyfleoedd i feincnodi er mwyn rhoi sicrwydd neu sicrhau gwelliant mewn gwasanaethau cynllunio mewn awdurdodau parciau cenedlaethol

**Ceisiadau a llwyth gwaith:**

- A yw awdurdodau parciau cenedlaethol  a chyd-awdurdodau yn wahanol iawn i'w gilydd a pham?
- A yw'r cymysgedd o geisiadau/ffioedd yn peri unrhyw risg?

**Canlyniadau:**

- A yw cyfraddau cymeradwyo awdurdodau parciau yn wahanol iawn i'w gilydd ac i rai awdurdodau eraill?
- Beth allai fod yn digwydd yn rhywle arall y gall awdurdodau parciau cenedlaethol ddysgu ohono?

**Gwerth a dim gwerth - ceisiadau a dynnwyd yn ôl:**

- Beth yw'r duedd gyffredinol?
- Beth mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn ei wneud i osgoi hyn ac a yw'n gweithio?
- Beth sy'n digwydd i'r duedd mewn ceisiadau am ddim gan nad yw ffioedd yn talu costau?

**Gwerth a dim gwerth - ceisiadau dilynol:**

- Beth yw'r tueddiadau mewn perthynas â chyflawni amodau a mân addasiadau perthnasol?
- Sut y gellir lleihau costau i'r eithaf?
- Pwy sy'n gwneud hyn yn dda?

**Amcangyfrif o nifer yr aelodau o staff:**

- I ba raddau y mae'r adnoddau yn cyfateb i'r gwaith?
- Beth yw'r llwythi achosion yn rhifyddol ac ar draws pa fath o geisiadau?
- A oes cyfleoedd i ailganolbwyntio ar adnoddau?

**Gwerth buddsoddi:**

- A yw awdurdodau parciau cenedlaethol yn gwybod beth yw gwerth buddsoddi'r cynigion datblygu?
- Beth mae tueddiadau sy'n codi/gostwng yn ei olygu i strategaethau'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol?

**69.** Heb gytuno ar fesurau a safonau priodol ac asesu'r modd y maent yn cymharu â'i gilydd, mae'n anoddach i'r Awdurdod asesu a yw'n cyflawni gwerth am arian i drethdalwyr lleol a chwsmeriaid cynllunio sy'n talu. Heb ddealltwriaeth well o feysydd lle y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd, mae'n anoddach i'r Awdurdod flaenoriaethu gwelliannau. Mae agenda 'Cynllunio Cadarnhaol' newydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i annog a chefnogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i roi ffocws cliriach ar gost, gwerth am arian a gwell meincnodi. Dylai unrhyw waith yn y maes hwn yng Nghymru adeiladu ar y profiad a'r arbenigedd a gafwyd drwy Benaethiaid Cynllunio'r Alban[18] a Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Lloegr er mwyn adolygu arfer da.

**70.** Mewn perthynas â mesurau anariannol, nid yw'r Awdurdod wedi gweithredu ar ein hargymhelliad yn 2009 i ddatblygu canlyniadau cyflawnadwy a mesuradwy sy'n ymwneud â themâu sy'n cynnwys ansawdd. Mae cyfleoedd i'r Awdurdod ddangos yn well ei gyfraniad tuag at flaenoriaethau lleol pwysig megis treftadaeth ddiwylliannol, ffyniant economaidd a lles, y dywedodd yr aelodau wrthym eu bod yn flaenoriaethau allweddol iddynt. Er enghraifft, byddai dealltwriaeth well o gyfraniad y gwasanaeth cynllunio at gefnogi gweithgarwch economaidd ar ffurf swyddi a buddsoddiad yn ei waith ar geisiadau, gan gynnwys gwaith preswyl, masnachol, arallgyfeirio ar ffermydd a chynhyrchu ynni yn ddefnyddiol i drigolion, busnesau a chwsmeriaid cynllunio. Mae cyfleoedd i'r awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru gydweithio i ddatblygu mesurau canlyniadau mwy ansoddol. Mae enghreifftiau yn cynnwys adolygu a gweithredu ar y 49 o fesurau o lwyddiant o adroddiad 2011 PricewaterhouseCoopers.

[18] Penaethiaid Cynllunio'r Alban: **Planning Performance Framework 2014-15 reports**

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru